




Gair gan y Gweinidog

Be sydd ganddoch chi i'w roi?

Beth da chi'n gario gyda chi fel arfer wrth fynd i'r Capel? Cyn y cyfnod Covid roedd llawer yn mynd â chopi o Caneuon Ffydd i'r oedfa ac ambell un yn cario Beibl. Beth am baced o bolomints neu hances boced - heb anghofio'r sbectol ddarllen!

Erbyn hyn, dydyn ni ddim yn gallu mynd i'r adeilad pob wythnos a phan gawn ni fynd, rydym yn mynd â mwgwd i wisgo ar ein wyneb ac yn cyrraedd ein seddau gyda dwylo glân wedi eu diheintio.

Bydd ambell un ohonom sydd adre yn dod â chluniadur neu dabled neu ffôn gyda ni i addoli ac eraill yn cario darnau o bapur i'w darllen gyda phaned wrth eu hochr. Cawn oedfa o flaen y teledu neu wrth glustfeinio ar y radio. Mae hi'n rhyfedd o fyd ond mawr yw ein baint i fedru dal ati i addoli.

Rydym yn byw yn oes y cwsmer, lle da ni'n cael ein hannog i ofyn bob tro "Be dwi'n gael allan o hwn?" a chawn ein temtio i wneud yr un peth gyda'r profiad o addoli hefyd. Cwestiwn mwy heriol a mwy buddiol efallai fyddai gofyn - "Beth dwi'n gario gyda fi i'r profiad o addoli, beth dwi'n medru ei gyfrannu?"

Does yna ddim un ateb syml i'r cwestiynau yma, ond mae nifer o awgrymiadau defnyddiol yn y Beibl ar ein cyfer:

Dylem fynd i addoli gyda syched am Dduw :

*"O Dduw, ti yw fy Nuw, fe'th geisiaf di;
y mae fy enaid yn sychedu amdanat,
a'm cnawd yn dihoeni o'th eisiau
fel tir sych a diffaith heb ddŵr."* Salm 63 1

Dylem fod yn agored i synhwyro presenoldeb Duw ac i ryfeddu:

*"Fel hyn y syllais arnat yn y cysegr
a gweld dy rym a'th ogoniant."* Salm 63: 2

Dylem ymroi yn llwyr i addoli heb ddal dim yn ôl:

“Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl”

Mathew 22:37

“Am hynny, yr wyf yn ymbil arnoch, gyfeillion, ar sail tosturiaethau Duw, i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw, sanctaidd a derbyniol gan Dduw. Felly y rhowch iddo addoliad ysbrydol” Rhufeiniaid 12: 1

Dylem addoli mewn gostyngeddwydd gan gydnabod ein beiau:

“Bydd drugarog wrthyf o Dduw, yn ôl dy ffyddlondeb; yn ôl dy fawr dosturi dilea fy nhroseddau.” Salm 51:1

Dylem fynd i addoli gyda pharodrwydd i gael ein cyffwrdd a'n newid gan yr addoliad:

“Crea galon lân ynof, O Dduw, rho ysbryd newydd cadarn ynof.”

Salm 51: 10

“ydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef.” Rhufeiniaid 12 : 2

Dylem fynd i addoli gyda pharodrwydd i rannu y pethau sy'n ein poeni ni gyda Duw a'u hymddiried iddo:

“Bwriwch eich holl bryder arno ef, oherwydd y mae gofal ganddo amdanoch”

1 Pedr 5:7

Dylem fynd i addoli gyda chariad a chonsyrn am gydaelodau:

“Gweddiwch dros eich gilydd” Iago 5: 15

“Cariwch feichiau eich gilydd” Galatiaid 6:2

“Calonogwch eich gilydd” 1 Thesalonaiad4: 18

a chyda thosturi'r Tad at yr anghenus:

“Y mae'n tosturio wrth y gwan, ac yn gwaredu bywyd y tlodion” Salm 72

Os ydyn ni'n mynd â'r pethau yma yn ein meddyliau a'n calonnau, rydym yn siŵr o gael ein bendithio'n helaeth.

Boed bendith Duw arnoch chi a'ch teuluoedd yn ystod y dyddiau anodd yma a chofiwch gadw cysylltiad - rydym i gyd yma i'n gilydd.

Casi M. Jones




TRO AR FYD

Am rai blynyddoedd, bu'r Hybarch Meurig Llwyd yn gweinidogaethu fel Archddiacon Ffrainc, a Chaplan i'r Esgob yn Ewrop.

Treuliodd gyfnod cyffrous yn byw ym Mrwsel, ond ar ddiwedd y flwyddyn daw tro ar fyd, wrth iddo droi ei olygon a symud i ardal Corc yn Iwerddon a dychwelyd i weinidogaeth blwyf mewn tref farchnad o'r enw Mallow.

"Wedi pymtheg mlynedd fel archddiacon, roeddwn yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r dynfa yn ôl i'r Weinidogaeth sydd wedi ei gwreiddio o fewn un gymuned benodol, ond yn gadarn yn yr Undeb Ewropeaidd."



Pob dymuniad da i Meurig wrth iddo ddechrau ar gyfnod newydd yn ei fywyd a symud 'drws nesaf fel petai i wasanaethu ein cefndryd Celtaidd.

←----- llun swyddogol pan gafodd ei benodi.

DIOLCH

Carai Branwen Jarvis
ddiolch yn ddiffuant
i'w chyfeillion yn Emaus
am bob neges o gydymdeimlad
yn y brofedigaeth
o golli ei hannwyl chwaer
Lowri.
Bu'r cyfan yn gynhالياeth
ac yn gysur.

TRAIDCRAFT

Newyddion Traidcraft

Gan fod y sefyllfa clo yn newid mor gyflym, mae'n anodd gwybod ar hyn o bryd, a fydd modd i ni dderbyn archebion ym mis Tachwedd.

Rhaid disgwyl i weld beth fydd yn bosibl o fewn y cyfyngiadau.

Diolch unwaith eto am gefnogi masnach deg.

Catrin

O WEITHDY WES

[Dyma mae Wes Evans yn ei ddweud
am ddau o'i brosiectau]


“Dyma ddau brosiect ddaru mi eu cyflawni yn ystod y cyfnod clo, gan ddefnyddio deunydd oedd gen i ers blynnyddoedd.

Deuthum o hyd i'r gloch tra'n cerdded mynyddoedd yr Alpau flynyddoedd yn ôl. Mae'n debyg taw gafr neu asyn fyddai wedi ei gwisgo.”

PROSIECT 1 - Y STÔL



PROSIECT 2 - Y GLOCH





Wes a Catrin yn ailgerdded y daith noddedig wnaethpwyd ym Mis Mai,
yng nghwmni Llinos Roberts, Cymorth Cristnogol
ac Anna Jane (y tu ôl i'r camera!) cyn-swyddog Cymorth Cristnogol.

DIOLCH

Hoffai Eurfryn a Siân

*ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad
anfonwyd atynt ar golli chwaer a chwaer-yng-nghyfraith,
yn gardiau, galwadau ffôn a negeseuon drwy e-bost.*

Gwerthfawrogwyd yn arw.



Y GENHADAETH

CYFRANIAD

Ni chynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Senana a Chwiorydd Arfon eleni oherwydd y pandemig, ac ni wnaethpwyd y casgliad blynnyddol. Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Swyddogion anfon rhodd o £150.00 ar ran y Chwiorydd at brosiect Diolchgarwch y BMS.

CARDIAU NADOLIG

Mae cardiau Nadolig Cymraeg ar gael drwy gatalog Nadolig y BMS.

DYDD GWEDDI CHWIORYDD Y BEDYDDWYR



Cynhelir cyfarfod Zoom bnawn LLun, Tachwedd 2il am 2o.g. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch ag Eleri Lloyd Jones os gwelwch yn dda. Gan na fydd modd gwneud casgliad, gofynnir yn garedig i bob eglwys/unigolyn anfon eu cyfraniadau at

**Sian Arwel Davies,
Gwel y Don, Lon Brynteg,
Llandegfan, LL59 5UA.**

MUDIAD Y CHWIORYDD

Mae'r prosiect ar ei ffordd i'r capeli ac fe ddefnyddir rhannau ohono yn y cyfarfod Zoom.

Mae rhai chwiorydd wedi bod wrthi'n ddiwyd yn gwau capiau, festiau, blancedi cot a theganau meddal ar gyfer babanod newydd anedig. Maent wedi cychwyn ar eu ffordd drwy law Aled Davies a fydd yn eu trosglwyddo i Judith Morris ac yna i Bonni Davies ac yna ymlaen i bellafoedd byd.



TEAMS 4 U



Mae pamffledi ar gyfer llenwi'r bocs sgidiau Nadolig wedi dod i law. Eleni byddant yn cael eu danfon i Rwmania, Wcrain, Belarus a Moldova.

Derbynnir gan Ysgol David Hughes, Porthaethwy (Tachwedd 13eg) ac Ysgol Syr Huw, Caernarfon (Tachwedd 20).

Gwelir y manylion i gyd ar wefan T4U - www.teams4u.com.

APÊL DIOLCHGARWCH BMS 2020



Eleni mae BMS World Mission wedi dewis cefnogi gwaith meddygol Ysbyty Guinibor II yn yr Apêl Diolchgarwch. Mi fydd rhai yn cofio ein bod wedi cyfrannu at apêl arbennig UBC at yr un lle rhai blynyddoedd yn ôl. Y tro hwnnw helpu adeiladu ward mamolaeth yn yr Ysbyty oedd y nod. Eleni mae'r arian a gasglir yn mynd i gefnogi'r holl waith meddygol yno. Mae amodau bywyd yn anodd yn Chad, ar gyrion y Sahara. Nid yn unig oherwydd yr hinsawdd a'r tlodi mawr ond hefyd oherwydd bygythiadau Boko Haram a grwpiau treisgar eraill.

Mewn tymheredd o dros 40 gradd yn rheolaidd, mae staff Guinibor II, gyda help ariannol y BMS, yn gweithio'n galed. Maent yn trin cancer, malaria a chlefyd siwgr; yn trwsio esgyrn wedi eu malu a chyrff wedi eu clwyfo yn ddamweiniol neu'n friadol; yn lleddfu poen ac angen o bob math; ac yn helpu esgor babis a gofalu am blant sâl.

Yn 2019 gafodd 14,423 o gleifion eu trin yno. Wrth gwrs eleni mae COVID-19 wedi dod a her newydd i staff yr Ysbyty! Er bod mwyafrif o'r bobl leol yn Fwslemiaid, mae ganddynt barch mawr at yr Ysbyty agored Cristnogol yma oherwydd eu gwaith da. Mae gan y staff genhadaeth arbennig, yn cynnig gobaith ac iachâd i bobl y Sahel.

Dyma eiriau Kalbassou Doubassou, pennaeth yr Ysbyty: *"Dwi'n falch iawn o'r Ysbyty oherwydd mae o'n gwneud gwahaniaeth. Mae'r nyrsys yn gwneud eu gwaith a'r doctoriaid yn gofalu am y cleifion. Mae pawb yn groesawgar ac felly mae'r cleifion i gyd yn hapus... Mae gennym lesu i gynnis i bobl ond hefyd ein sgiliau i ofalu amdanynt. A hynny sydd fwyaf cyffroes"*.

A fedrwrch chi gyfrannu ychydig at y gwaith pwysig yma? Yn 2020 rydym i gyd yn gwerthfawrogi o'r newydd gwaith arwrol ein gweithwyr ieuchyd yma yng Nghymru. Dyma gyfle i gefnogi gweithwyr eraill mewn rhan o'r byd sy'n fyr iawn o'n breintiau ni. Diolch yn fawr am eich caredigrwydd.

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan BMS <https://www.bmsworldmission.org>

COFION

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Richard Gwynedd Roberts. Cafodd Richard amser anodd iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf, pan fu raid iddo fynd i aros yn Ysbyty Gwynedd ar sawl achlysur. Mae wedi dychwelyd adra a gobeithiwn y bydd yn parhau i wella. I un a fu'n tramwyo coridorau'r Ysbyty gymaint i ymweld, bu'n brofiad chwithig i Richard beidio â gallu derbyn ymwelwyr, oherwydd y cyfnod clo.

Bu raid iddo ef a Jane a'r teulu fodloni ar gyswllt y ffôn.

Cydyndeimlwn hefyd â Jane. Bu farw ei brawd yng nghyfraith, David Cullen, o Drefor, yn ddiweddar. Eto, oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod, methodd Jane a Richard fynd i'r angladd.

Ëhoffai Jane a Richard ddiolch i bawb sydd wedi galw ar y stepen drws neu wedi eu ffonio ers dechrau cyfnod y pandemig.

CORNEL POSAU GARETH

ATEB I BOS HYDREF 2020

AILAGOR Y CAPEL

Mae Elinor yn edrych ymlaen
at ddod yn ôl i'r capel,
fel y mae Ynyr, William ac Astra,
enwau'r pedwar
yn dechrau gyda llafariad.

=====

POS TACHWEDD 2020

DAIL YR HYDREF

*Gwynt yr hydref ruai neithiwr,
Crynai'r dref i'w sail,
Ac mae'r henwr wrthi'n fore'n
'Sgubo'r dail.*

Crwys




*Mae'r henwr yn hel y dail mewn pentyrrau
crwn. Mae tua 150 deilen yn y pentwr
hwn:*

Tua sawl deilen sydd mewn pentwr arall
sydd ddwbl yr uchder a dwbl y diamedr?



**Bydd yr ateb
yn rhifyn Rhagfyr**



EI ANRHYDEDDU



Llongyfarchiadau mawr
i Dai Lloyd Jones, Porthaethwy,
a gafodd ei anrhydeddu
yn ddiweddar
gan Glwb Rotary Bangor
am ei ran yn ymdrechion
elusennol y mudiad
ers 50 mlynedd,
gan sicrhau cefnogaeth
ariannol
i bob math o achosion da
dros y cyfnod hwnnw.

.....

Rotary



Gwasanaeth Diolchgarwch EMAUS





Diolch
am wrando
ar ein
gwasanaeth

GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Eleni cawsom wasanaeth Diolchgarwch gyda chymorth technoleg Zoom, ond yr un oedd y pleser o weld plant ac ieuencid y capel yn defnyddio'u talentau amrywiol. Thema'r gwasanaeth oedd prydferthwch y blaned a'r pwysigrwydd o'i gwarchod. Mwynhawyd eitemau cerddorol Carys ar y piano ac Aran a Morgan Tecwyn ar y cornet a'r trombôn. Datblygwyd y thema ymhellach drwy gyfrwng darlenniadau o'r Beibl ac o gerddi Gwyn Thomas, Mererid Hopwood a Tudur Dylan gan Eluned, Tesni, Nest, Hawys, Luned, Ianto, Cian Iolen, Math, Guto ac Ifan. Disgrifiadau personol a ddarllenwyd gan Alys, Gwion a Cian Rees wrth fynegi'r pleser o weld prydferthwch yr ardd a phrofi'r wefr o ddarganfod llwybrau newydd. Cafodd Mati, Huw ac Awel gyfle i ddangos eu doniau creadigol ar ffurf lluniau deiliog a charreg addurniadol. Bydd y garreg hon a nifer o gerrig eraill yn cael eu harddangos yn y capel yn y dyfodol.

Diolch i bawb a gymrodd ran ac yn arbennig i Lowri Elis a Lucy Clement-Evans am eu gwaith yn sicrhau bod cynulleidfa Zoom Emaus wedi mwynhau gwasanaeth bendithiol iawn.

Menna Roberts

Cerrig mae rhai o blant y capel wedi bod yn paentio ar gyfer Diolchgarwch.



Cerrig teulu Lucy



Cerrig teulu Alys



Carreg Nansi



Cerrig Gwion



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CLO BACH

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i dynhau'r cyfyngiadau Covid-19 am gyfnod o bythefnos o 23 Hydref hyd at 9 Tachwedd, gallwn gadarnhau y bydd yr oedfaon Sul ar 25 Hydref, 1 Tachwedd ac 8 Tachwedd yn oedfaon Zoom. Os ydych am fentro i fyd Zoom am y tro cyntaf, naill ai o'ch cyfrifiadur neu dros y ffôn, cysylltwch gyda'r gweinidog yn y lle cyntaf er mwyn derbyn cyfarwyddiadau. (gweinidog.emaus.bangor@gmail.com). Bydd deunydd darllen yn cael ei ddosbarthu fel arfer.



GWNEUD YN LLE DWEUD

Yr ydwi'n wedi bod yn annog pawb, bron pob mis, i beidio bod yn swil i gyfrannu eitem am eich teulu neu y chi eich hun, a allai fod o ddiddordeb i ddarllenwyr Y Negesydd.

Y mis yma, yr ydwi'n "**gwneud yn lle dweud**".

Mae'r llun ar y dudalen flaenorol o silffoedd a wnes i ddal cynnyrch o fy sied. Er mwyn rhoi syniad o faint y gwahanol gynnyrch, mae tua 10 modfedd rhwng pob silff.

'Rwy'n cyfaddef na chafodd y rhan helaethaf o'r cawgiau a'r costrelau sydd i'w gweld ar y silffoedd eu gwneud yn ystod cyfnod y cyfyngiadau.

Efallai y bydd ddiddordeb, fod nifer fawr o'r eitemau wedi eu gwneud allan o goeden Geirios a fu farw ar dir Emaus ac allan o Gastanwydden ar dir Y Coleg Gwyn, a syrthiodd mewn storm.

Eirwyn Morris

Y NEGESYDD

Mae ein diolch i Cathrin Williams
am gasglu a chydlynu'r wybodaeth ar gyfer y rhifyn yma.

Dylid gyrru'r holl wybodaeth ar gyfer rhifyn Rhagfyr y Negesydd
i Elen Lansdown e-bost: stephenlansdown@btinternet.com Ffôn: 01248 364843
erbyn Tachwedd 22, **fan bellaf**.

Neu, os y dymunwch, yn syth i'r Negesydd e-bost : negesydd@btinternet.com

Wrth baratoi rota'r gohebyddion ar gyfer 2021
byddem yn croesawu'r cyfle i ychwanegu rhagor o enwau at y rhestr o wirfoddolwyr.

Am ragor o fanylion cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd,
Gareth Ffowc Roberts, os gwelwch yn dda:

e-bost : ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com,

Ffôn : 351243

